OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 3257

## Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 9 ac Arbediad) (Cymru) 2006

**Diwrnodau penodedig**

**2.** 6 Rhagfyr 2006 yw'r diwrnod penodedig i'r canlynol ddod i rym—

(a) adran 57 o'r Ddeddf i'r graddau y mae'n rhoi effaith—

(i) i baragraffau 1, 6 a 9(5) o Atodlen 6 i'r Ddeddf (darpariaethau ynghylch cynlluniau gwella hawliau tramwy a baratoir o dan adrannau 60 a 61 o'r Ddeddf) i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym o ganlyniad i Orchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2004(**1**), a

(ii) i baragraff 26 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (amrywiol swyddogaethau awdurdodau Parciau Cenedlaethol);

(b) adran 69(1) a (3) o'r Ddeddf (codi neu wella camfeydd, etc.) i'r graddau y mae'n darparu'r pŵer i ddyroddi canllawiau;

(c) adran 102 o'r Ddeddf (diddymiadau) i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r cofnod ynghylch—

(i) adran 193(2) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 ("Deddf 1925")(**2**) yn Rhan 1 o Atodlen 16 i'r Ddeddf i'r graddau nad yw eisoes mewn grym o ganlyniad i Orchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2004(**3**), a

(ii) paragraff 9 o Atodlen 15 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**4**) yn Rhan II o Atodlen 16 i'r Ddeddf.

(**1**) O.S. 2004/315 (Cy.33) (C.16).
(**2**) 1925 p.20.
(**3**) O.S. 2004/1489 (Cy.154) (C.59).
(**4**) 1981 p.69.